

**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**  
Chief Officer (Governance)  
Prif Swyddog (Llywodraethu)



Swyddog Cyswllt:  
Nicola Gittins on 01352 702345  
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Mercher, 28 Gorffennaf 2021

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL**  
**CYNGOR SIR Y FFLINT**  
**DYDD MAWRTH, 3YDD AWST, 2021 2.00 PM**

Yn gywir

Robert Robins  
Rheolwr Gwasanaethau Democraidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod rhithiol a bydd 'presenoldeb' yn gyfyngedig i Aelodau'r Cyngor.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidd ar 01352 702345.

## R H A G L E N

### 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

### PRIF EITEM BUSNES

#### DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Mae'r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 13 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio)

Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion sy'n datgelu pwy yw'r ymgeisydd a ffefrir ar gyfer swydd y Prif Weithredwr ac mae budd y cyhoedd wrth beidio â datgelu'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.

### 3 PENODIAD PRIF WEITHREDWR (Tudalennau 5 - 8)

**Pwrpas:** I geisio cymeradwyaeth ffurfiol o argymhellion y Panel Penodiadau ar gyfer penodi Prif Weithredwr newydd.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw'r cyfarfod yn para'n hirach na dwy awr.***

## **Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.